

YSGOL TREMARCHOG

A fuoch chi'n un o'r rhai ffodus o Bencaer a'r cylch a fu'n ddisgybl yn yr ysgol hon? Bu ar agor o 1872 tan 1955. Cafodd ei hadeiladu ar ran o dir comin Clun Bach ar gyrion Gorllewinol pentref Tremarchog. Y brif adeilad waliau o garreg las o ardal Garn Folch ac estyniad o garreg o chwarel fach ger Pwll Tincer. Er i'r tŷ cael llechu newydd tua 1980 ar ôl i'r gymuned brynu'r adeilad roedd y prif drawstiau'n dal mor gadarn â chanrif yn gynharach. Doedd na ddim cegin tan ddiwedd rhyfel na dim dŵr i'r tai bach ychwaith. Yn ystod y dydd os wedd eisiau rhywbeth i yfed arnoch, lawr at y ffynnon, gorwedd ar eich bol a chodi llond eich dwylo o'r hylif wêr hyfryd, wedd y drefn.

Yn ôl y cofnodion digon tlawd oedd adnoddau'r ysgol am flynyddoedd maith. Roedd yr incwm blynyddol yn dibynnu ar sawl plentyn oedd yn mynychu'r ysgol ond os oedd plentyn yn hwyr yn cyrraedd yn y bore, neu'r prynhawn, nid oedd hawl gan y prifathro nodi presenoldeb. Bu plant un teulu yn cael sylw yn cyson yn llyfr cofnodion yr ysgol am fod yn hwyr, nes i'r prifathro ddarganfod nad oedd gan y teulu, yn eu bwthyn diarffordd, gloc nac oriawr o unrhyw fath.

Os oedd y tywydd yn arw ac yn wlyb iawn ychydig iawn o'r disgyblion oedd yn bresennol. Ar adegau pan oedd y presenoldeb yn isel roedd y prifathro yn cau'r ysgol a thrwy hynny ddim yn gorfod cadw cofnod a oedd yn debyg o wanhau ffigurau presenoldeb, ac felly incwm yr ysgol. Yn aml nid oedd y tân yn cael ei gynnau gan nad oedd digon o arian yn y coffrau i brynu glo a'r plant yn cerdded o bell, ac yn aml yn cyrraedd yn wlyb at eu crwyn. Rhai yn dod o Dresinwen, eraill o Bont Trefwrdan. Ar un adeg yr athrawes gynorthwyol oedd Miss Lloyd, Clungim. Nodwyd yn y cofnodion [Log yr Ysgol], llythyr o gerydd swyddogol iddi oherwydd iddi gyrraedd yn hwyr un bore. Roedd y lluwchfeydd eira gymaint fu raid iddi gerdded ar draws gwlad a thros Waun Clegyrn gan ei fod yn amhosib iddi ddefnyddio'i beic. Er iddi gael canmoliaeth am ei gwaith fel athrawes bu raid iddi adael ei swydd oherwydd iddi briodi. Ar yr adeg honno roedd yn amhosib i athrawes briod gadw ei swydd.

Rhesymau eraill am gau'r ysgol oedd ffair Fathri, pigo tatws neu gynaeafu gwair neu lafur yn ogystal ag ambell gyfnod tra'n aros am gyfle i gael atgyweirio'r tŷ wedi gwynt hegar . Yn fwy difrifol oedd gorfod cau oherwydd heintiau fel y dwymyn goch. Bu sawl achos o hyn a chofnod am blant yn cael eu danfon i'r ysbyty heintiau difrifol yn Nhoc Penfro. Roedd hwn yn bell iawn o'u cartrefu a'u rhieni yn ddiolchgar iawn os oedd yr athro yn cynnig mynd â nhw ar ymweliad bob mis. Os oedd achos o haint roedd y prifathro yn cael hawl i archebu galwyn o ddi-heintydd cryf i'w daenellu o gwmpas y tai bach, ac ambell gwodyn o galch am y bwcedi holl bwysig. Cyn archebu roedd rhaid cael caniatâd o'r swyddfa yn Hwlffordd!

Bbu bron pob prifathro'n byw yn Nhŷ'r Sgwlin rhyw hanner canllath o drws yr ysgol. Cyfleus iawn. Ond ar adegau cafwyd nifer o athrawon dros dro. Am flwyddyn bu efeilliaid o Lanelli yn rheoli a neb yn siŵr p'un fyddai'n bresennol. Ar fore Llun roedd fel arfer yn hwyr yn cyrraedd ar ôl dal trê'n i Clarbeston Road ac yna cael lifft gyda lori laeth Lawrence. Os oedd yn fore wêr wel dyna gyfle i lwytho glo mewn i'r stôf haearn, agor y twll gwynt a chael ffwrnes goch i dwymo'r dwylo.

Erbyn canol y pedwardegau adeiladwyd estyniad concret i'r ysgol. Roedd ganddo ddau bwrpas, yn gysgodfan petai angen mewn ymosodiad gan awyrennau rhyfel ond roedd hefyd yn gegin. Y cogydd oedd Lety Lloyd, merch i'r lanhau wraig Phebi Lloyd. Yn haeddiannol mae'r tŷ lle'r oedd Phebi'n byw wedi cymeryd ei henw hyd heddiw. Rwy'n siŵr bu gwell bwyd yn ysgol Tremarchog na llawer ysgol arall. Os nad oedd y nwyddau a ddaeth i'r gegin lan i safon roedd Lety yn mynd o gwmpas yn hel gwell llysiau a ffrwythau o erddi a chloddiau'r ardal ac yn sicrhau bo'r prifathro yn nodi y diffyg safon yn "log" yr ysgol.

I mi yr awyrgylch deuluol a chymunedol sy'n aros yn y cof. Efallai am bo'r nifer o ddysgyblion yn llai na deg ar hugain yn y pedwardegau ac oherwydd y dull o addysgu ac agwedd y gwahanol athrawon. Er ebgraifft dysgu daearyddiaeth y sir, a Chymru hefyd, trwy adeiladu mapiau allan o blastisîn ar ford llyfn ac yna defnyddio paent i ddangos ffyrdd, afonydd a rheilffyrdd. Adeiladu modelau ô hen bocsis matsis a phast a phapur o'r llongau ym mhorthladd Abergwaun ac yna mesur gardd yr ysgol cyn plannu tatws a hau hadau llysiau bob gwanwyn. Côt da am gyngherddau a cheisio'n aflwyddiannus, i wneud dawnys côs brws i gerddoriaeth ffidil y prifathro Teifi Morgan.

Mae'n amlwg wrth ddarllen cofnodion yr ysgol [sydd ar gael i bawb eu gweld yn Archifdy Hwlfordd] mai Seisnig oedd addysg yr ysgol am flynyddoedd. Yn amser Letty Lloyd fel myfyrwraig yno roedd Cymraeg dal yn cael ei wahardd ac mae na sawl sylw yn y tridegau gan Archwilwyr Addysg ei Mawrhydi – HMI's – am y diffyg mewn defnydd Cymraeg yng ngwaith yr ysgol. Erbyn y pedwardegau roedd pethau'n llawer gwell ac o dan ofalaeth Teifi Morgan a Mrs.Fitzgerald daeth yn ysgol Gymreig. Ond, lleihau roedd nifer y plant yn yr ardal ac er pwysau gan y rhieni a llywodraethwyr yr ysgol ni chafwyd y gwelliannau i'r adeilad a'r maes chwarae roedd eu gwir angen, ac wedi'u gaddo. Aeth rhai plant i ysgolion eraill felly raid i'r prifathro symud i ysgol Fathri. Bu Mrs.Fitzgerald yn gweithio'n galed wrth gyflawni pob swydd wrth'i tan yn ddi symwth caewyd yr ysgol gan yr awdurdod addysg yn Hydref 1955. Gweithred drist iawn mewn cymuned glos a adawodd ôl parhaol.

I raddau heleth mae peth o'r niwed wedi'i lleddfu gan y gymuned yn llwyddo prynu'r adeilad a thros y blynyddoedd ei ail wampio'n adeilad cymunedol dymunol o safon uchel. Edrychwn ymlaen at ail ddechrau'r gweithgareddau cymunedol wedi diflaniad yr haint bresennol.